



NHS
WALES
GIG
CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg**

**Penodi Aelodau Annibynnol
(Cymunedol a'r Trydydd Sector)**

Dyddiad cau: 6 Mai 2018



**The Commissioner for
Public Appointments**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud Cais	3
Atodiad A: Rôl y Cadeirydd / Aelod	6
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Iechyd Cyhoeddus Cymru	11
Atodiad C: Y broses ddethol	13

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Gwneud cais

Diolch i chi am fynegi diddordeb ym mhenodiad Aelod Annibynnol (Cymunedol neu'r Trydydd Sector) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Bydd yn ofynnol i'r Aelodau Annibynnol newydd gymryd rhan fel aelodau llawn o'r Bwrdd sy'n gosod y strategaeth ar gyfer y sefydliad. Yn ogystal â hyn, bydd disgwyl i chi herio'n adeiladol, cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau gan y Bwrdd a chraffu ar berfformiad y Tîm Gweithredol o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl yr Aelod Annibynnol a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-38a79071e125/candidate/jobboard/vacancy/7/adv>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag berthnasol ar gyfer Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – (Cymunedol neu'r Trydydd Sector) ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi llenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen i chi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu gwneud, drwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd y ffurflen gais ar gael i chi ei llenwi. I wneud cais bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle chi i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol a manyleb y person. Mae hefyd yn gofyn i chi ddarparu atebion, a rhoi tystiolaeth o'r cymwyseddau a chanlyniadau, i'r cwestiynau a restrir isod. Chi fydd yn penderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio darparu tystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych chi'n bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer y rôl yr ydych yn ymgeisio amdani, tystiolaeth o'ch dealltwriaeth o faterion iechyd a thystiolaeth hefyd sy'n ateb y cwestiynau eraill a restrir isod o ran eich rôl chi yn bodloni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir i ba gwestiwn a restrir isod y mae tystiolaeth benodol yn berthnasol. Mae'n arfer cyffredin i ddarparu paragraffau ar wahân i ateb bob cwestiwn gyda theitl y cwestiwn yr ydych yn ei ateb uwchben pob paragraff.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn rhagori ar y terfyn hwn.

Cwestiynau i'w hateb fel rhan o'ch cais yn eich datganiad personol, gan ddefnyddio dim mwy na 2 dudalen A4.

Rhowch grynodedb o sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer naill ai rôl yr Aelod Annibynnol Cymunedol neu'r Trydydd Sector fel yr amlinellir ar dudalennau 7 ac 8.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Disgrifiwch eich dealltwriaeth o faterion a blaenoriaethau iechyd yng Nghymru a sut y byddai'r rhain yn gymwys ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Rhowch enghraifft neu enghreifftiau penodol pan oedd rhaid ichi ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a chyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau cadarn.

Disgrifiwch adeg pan wnaethoch ddwyn person ar lefel uwch i gyfrif gan barhau i gynnal perthynas adeiladol ag ef/hi.

Rhowch dystiolaeth o'ch sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Rhowch enghraifft benodol yn amlinellu eich dull o gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ar bob lefel, y sgiliau a'r dulliau a ddefnyddiwyd gennych a'r canlyniad.

Disgrifiwch enghraifft neu enghreifftiau lle'r ydych wedi cynnwys amrywiol dimau, partneriaid a rhanddeiliaid i wella gwasanaeth neu broses. Amlinellwch eich cyfraniad personol a'r canlyniad.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	6 Mai 2018
Llunio rhestr fer:	w/d 7 Mai 2018
Cyfweliadau:	w/d 21 Mai 2018
Dyddiad Dechrau:	Cyn gynted â phosibl

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarant Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â'r Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol. Ffôn: 03000 255454, e-bost: PublicAppointments@gov.wales

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Aelod Annibynnol, cysylltwch ag Andrew Davies, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Ffôn: 01639 683302. E-bost: Andrew.davies25@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ewch i wefan y Bwrdd Iechyd: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/863/hafan>

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Atodiad A

Penodi Aelodau Annibynnol - Cymunedol a'r Trydydd Sector

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio eich sgiliau a'ch profiad i gyfrannu at ein gweledigaeth o gyflawni "Cymru iachach, hapusach a thecach".

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd Aelodau Annibynnol, ymysg pethau eraill, yn:-

- Chwarae rhan lawn a gweithgar yn y ffordd y caiff y Bwrdd Iechyd ei lywodraethu, o safbwynt clinigol a chorfforaethol. Byddwch yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau, gan gynnig eich barn a herio a chefnogi'r Bwrdd ar faterion allweddol;
- Cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar eich annibyniaeth, eich profiad yn y gorffennol a'ch gwybodaeth, a'ch gallu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd;
- Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw;
- Dod, ymhen amser, i ddeall y sefydliad yn llawn drwy gymryd rhan weithredol, er mwyn galluogi'r sefydliad i weithredu'n effeithiol;
- Gweithio'n agos gyda chyrrff preifat, gwirfoddol a chyhoeddus eraill a sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i siapio, datblygu a gwella gwasanaethau;
- Dadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth mewn modd beirniadol a chyfrannu at benderfyniadau cadarn;
- Gallu cyfrannu at brosesau 'llywodraethu ac ariannu' y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ei bod yn agored ac yn onest yn ei waith drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau.

Manyleb y Person

Bydd Aelodau Annibynnol yn dangos y priodoleddau canlynol:-

Gwybodaeth a Phrofiad

- Dealltwriaeth o faterion a blaenoriaethau iechyd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg;
- Y gallu i ddeall rôl a gwaith y sefydliad a sicrhau bod y Bwrdd yn ganolog i'r gwaith o ddarparu ei wasanaethau;
- Profiad o ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a chyfrannu at benderfyniadau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- Y gallu i weithio gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ac aelodau eraill y Bwrdd i sicrhau bod y Bwrdd yn arwain y sefydliad yn effeithiol. Lle bo angen, byddwch yn dangos sgiliau a fydd yn eich galluogi i ddwyn y Cyfarwyddwyr Gweithredol i gyfrif, gyda her briodol, am berfformiad gan gynnal perthynas adeiladol ar yr un pryd;
- Y gallu i gyfrannu at brosesau llywodraethu'r sefydliad, gan sicrhau ei fod yn agored ac yn onest yn ei waith drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau;

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

- Y gallu i ddarparu safbwynt gwybodus, diduedd a chytbwys ar amrywiaeth o faterion sensitif a chymhleth;
- Dealltwriaeth eang o'r gofynion llywodraethu sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth, er enghraifft y Ddeddf Diogelu Data, iechyd a diogelwch yn y gwaith etc;
- Gwerthfawrogiad o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r dylanwad y mae'n rhaid i hyn ei gael ar sicrhau "*Cymru Iachach, Hapusach a Thecach*" ar gyfer poblogaeth Cymru a chenedlaethau'r dyfodol.

Priodoleddau a Sgiliau Personol

Mae gan y Bwrdd Iechyd set o werthoedd ac ymddygiadau craidd a rennir, 'Gofalu am ein gilydd', 'Gweithio gyda'n gilydd' a 'Gwella bob amser'. Disgwylir ichi ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn. Ceir dolen i'r gwerthoedd hyn isod.

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/863/tudalen/81164/>

Yn ogystal â dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn, bydd angen ichi hefyd ddangos y canlynol:-

- Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i ymgysylltu â chyflogeion a chynrychiolwyr cyflogeion ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd;
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill;
- Y gallu i gynnwys rhanddeiliaid a gweithio gyda nhw i helpu i lywio, datblygu a gwella gwasanaethau;
- Y gallu i ddadansoddi ac adolygu'n feirniadol gwybodaeth gymhleth.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer penodi.

Meini Prawf Penodol i'r Rôl

Aelod Annibynnol – Cymunedol

Bydd angen ichi ddangos:

- Dealltwriaeth o faterion a blaenoriaethau cymunedol lleol, ac empathi â'r materion hyn;
- Dull sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion wrth hyrwyddo diben y Bwrdd o ran gwasanaethu'r cyhoedd;
- Profiad o drefnu a fydd yn helpu i ddatblygu'r Bwrdd Iechyd at y dyfodol.

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain ac ni fwriedir iddynt fod yn hollgynhwysfawr.

Aelod Annibynnol – y Trydydd Sector

Byddwch:

- Yn cael eich cyflogi gan sefydliad gwirfoddol sy'n gweithredu yn ardal y Bwrdd, neu'n aelod o sefydliad o'r fath;
- Yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r trydydd sector yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg;

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

- Yn gallu cymhwyso'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o faterion y trydydd sector mewn amgylchedd bwrdd strategol.

Mae Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn barod i drafod y meini prawf penodol i'r rôl gyda'r ymgeiswyr ar gais. Mae manylion cyswllt i'w cael ar dudalen pump.

Yr Iaith Gymraeg

Mae sgiliau Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y penodiadau hyn. Disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi at yr iaith a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd pob deufis mewn amrywiol leoliadau ar draws y Bwrdd Iechyd Prifysgol. Mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol amrywiol bwyllgorau hefyd, a chynhelir y cyfarfodydd naill ai bob deufis neu'n chwarterol.
Ymrwymiad Amser:	Mae swydd Aelod Annibynnol yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o 4 (bedwar) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad ac mae'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.
Hyd y penodiad:	Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn pennu hyd y penodiad, a fydd am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, bydd hyn yn amodol ar y ffaith bod yr Aelod Annibynnol yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl gydol y cyfnod hwn. Gall aelodau o'r bwrdd sefyll am gyfnod o wyth (8) mlynedd ar y mwyaf.
Cydnabyddiaeth ariannol:	Bydd yr Aelod Annibynnol yn cael £15,936 y flwyddyn a delir mewn ôl-daliadau yn fisol neu'n chwarterol, fel y cytunwyd â'r Bwrdd Iechyd. Lle caniateir i Aelod Annibynnol gael amser i ffwrdd o'i swydd bresennol gyda thâl i gyflawni ei ddyletswyddau, ni chaiff unrhyw dâl ychwanegol am ymgymryd â rôl yr Aelod Annibynnol. Byddant yn cael eu trin yr un ffordd â chyflogeion eraill sy'n cael amser i ffwrdd gyda thâl i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.
Treuliau:	Bydd gennych hawl i gael ad-daliad, os yw'n briodol, yn erbyn derbynebaw ar gyfer costau teithio a chynhaliadau a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gellid hefyd talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill os cyflwynir derbynebaw, yng nghydestun costau ychwanegol eraill a fydd yn cael eu hysgwyddo wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd.

Atebolrwydd:

Penodir yr aelodau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a byddant yn atebol i'r Ysgrifennydd y Cabinet, drwy'r Cadeirydd, am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

Cymorth i Aelodau Anabl:

Lle bo hynny'n briodol, caiff pob addasiad rhesymol ei wneud er mwyn i'r aelodau fedru cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Pwy sy'n cael gwneud cais

Bydd unigolyn yn cael ei ddiarddel o'r penodiad os bydd ef/hi:

- a. wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy;
- b. wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwr;
- c. wedi cael ei ddiswyddo/diswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd;
- d. os yw'n unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am iddo beidio â mynychu cyfarfodydd neu am iddo beidio â datgelu buddiant ariannol;
- e. yn cael ei gyflogi gan gorff gwasanaeth iechyd.

Yn amodol ar yr eithriad a nodwyd yn (e), mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru bod pob un a gyflogwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG yn cael seibiant heb ymwneud â'r GIG cyn cael ei ystyried ar gyfer Penodiad Cyhoeddus y GIG.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais yn yr adran Gwrthdaro rhwng Buddiannau o'r ffurflen gais.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod i'r amlwg ar ôl eu penodi.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod aelodau Byrddau Iechyd Lleol wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2015.

<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro Buddiannau

Dylech nodi'n arbennig bod gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Ar ôl eu penodi, bydd angen i Aelodau Annibynnol ddatgan y buddiannau hyn a cheisio cadarnhad gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau a'i fod yn briodol iddynt barhau'n aelod o'r bwrdd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus, a gallwch weld y ddogfen hon yma:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Cefndir

Dyma gyfle cyffrous i gyfrannu at wasanaethau iechyd lleol, sy'n dilyn trywydd strategol GIG Cymru.

Sefydliad sy'n seiliedig ar werthoedd yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Gan weithio gyda chleifion a staff, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sy'n seiliedig ar dri gwerth craidd: 'Gofalu am ein gilydd', 'Gweithio gyda'n gilydd' a 'Gwella bob amser'. Bydd y gwerthoedd hyn yn gyrru gwaith y Bwrdd yn barhaus, gan gynnwys recriwtio ar sail gwerthoedd ac arfarnu staff ar sail gwerthoedd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn un o'r sefydliadau iechyd integredig mwyaf yn y DU, ac mae'n hyrwyddo ac ysgogi rhagoriaeth ac ymchwil glinigol. Mae ganddo boblogaeth o tua 500,000 o bobl a chyllideb flynyddol o dros £1 biliwn ac mae'n cyflogi tua 16,500 o staff, a 70% ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â gofal i gleifion. Mae'n cynnig gofal integredig i gleifion, ac yn darparu gwasanaethau gofal trydyddol, aciwt, canolraddol, iechyd meddwl, cymunedol a sylfaenol i bobl Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a'r tu hwnt.

At hynny, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn darparu amrywiaeth o wasanaethau rhanbarthol ac is-ranbarthol, gan gynnwys llawdriniaethau ar y galon, llawdriniaethau plastig ac ar gyfer llosgiadau i gleifion yn Ne-orllewin Lloegr, gwasanaethau iechyd meddwl ffrensig i Dde Cymru a gwasanaethau anabledydd dysgu o Abertawe i Gaerdydd, yn ogystal ag ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Darperir Gwasanaethau Gofal Sylfaenol gan feddygon teulu, optegwyr, fferyllwyr cymunedol a deintyddion sydd i gyd yn gweithredu fel contractwyr annibynnol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli Gwasanaethau Meddyg Teulu y Tu Allan i Orllewin a Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer Carchar Abertawe.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg bedwar ysbyty aciwt sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau:

- Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
- Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mhort Talbot;
- Ysbyty Singleton yn Abertawe;
- Ysbyty Treforys yn Abertawe.

Mae hefyd nifer o ganolfannau adnoddau gofal sylfaenol mewn ysbytai cymunedol llai eu maint sy'n darparu gwasanaethau clinigol pwysig i'n preswylwyr y tu allan i'r pedwar prif ysbyty aciwt. Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg 2,248 o welyau.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi meithrin partneriaethau cadarn â byrddau iechyd cyfagos, awdurdodau lleol, y trydydd sector ac eraill. Mae'r

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

partneriaid hyn yn cynnwys Prifysgol Abertawe. Rydym yn gweithio gyda'r Brifysgol i ddatblygu diwylliant sy'n cael ei yrru gan ymchwil ac addysg, gan gydweithio'n agos â'r Coleg Meddygaeth, Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd a'r Sefydliad Gwyddor Bywyd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn rhan o brosiect cyffrous ar hyn o bryd gyda Phrifysgol Abertawe a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sef Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd. Dyma Iechyd a Gwyddoniaeth yn gweithio gyda'i gilydd, i wella Iechyd, cyfoeth a llesiant pobl De-orllewin Cymru.

Rôl y Bwrdd

Mae'r tair rôl allweddol y mae bwrdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn dangos arweinyddiaeth effeithiol drwyddynt yn ei sefydliad fel a ganlyn:-

- Llunio strategaeth.
- Sicrhau atebolrwydd drwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrhwydd bod systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy.
- Llywio diwylliant cadarnhaol ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad.

Mae rôl aelod y Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth** – cyfrannu at ddatblygiad strategol a gwneud penderfyniadau
- **Perfformiad** – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill yn cael eu dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt drwy herio a chraffu'n bwrpasol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrhwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r bwrdd ddangos drwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel dethol yn asesu eich cais, hynny yw eich CV a'ch datganiad personol, i benderfynu a ydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl, ac a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'ch datganiad personol i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a'r cwestiynau y gofynnwyd ichi eu hateb fel rhan o'ch datganiad personol.

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Andrew Davies, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a bydd hefyd yn cynnwys Elaina Chamberlain, Llywodraeth Cymru ac Aelod Annibynnol o'r Panel, i'w gadarnhau.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y caiff eich cais ei roi ar "restr hir" cyn iddo gael ei roi i'r panel i lunio rhestr fer. Dylech gofio, yn yr achos hwn, efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel dethol cyfan.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod yr wythnos yn dechrau 7 Mai 2018 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y cyfweiliadau'n cael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 21 Mai 2018.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel o'r farn eu bod dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac os nad ydy dyddiad y cyfweiliad wedi'i ddarparu eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na fyddwch yn gallu dod i'r cyfweiliad a drefnir, byddwn yn gwneud ein gorau i ail-drefnu. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd y cyfyngiadau amser yn yr amserlen ar gyfer penodi, a bydd yn dibynnu hefyd ar argaeledd y panel dewis.

Byddwch yn cael e-bost a fydd yn cael ei anfon drwy'r system Penodi i roi gwybod ichi a fyddwch wedi cael eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Rydym yn bwriadu cynnal y cyfweiliadau yn Abertawe.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni gofynion y swydd.

Bydd ymgeiswyr sy'n 'benodadwy' yn ôl y panel yn cael eu hargymell i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ysgrifennydd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall yr Ysgrifennydd y Cabinet ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Bydd bwloch amser rhwng y cyfweiliad a'r

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad. Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn eich hysbysu.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 03000 255454 neu PublicAppointments@gov.wales.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gŵynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â 3000 255454 neu PublicAppointments@gov.wales.